**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Y Mesur Cludiant i'r Ysgol Drafft**

Cafodd y Mesur Cludiant i'r Ysgol Drafft ei ystyried gan y Pwyllgor ar 19 Mai 2004. Bu Aelodau hefyd yn ystyried y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gyda'r Mesur drafft. Roedd Pennaeth yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion a swyddogion o Adran Drafnidiaeth y Cynulliad yn bresennol yn y cyfarfod.

Fel cyflwyniad, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y swyddogion:

- Diben y Mesur drafft oedd mynd i'r afael â'r anawsterau'n ymwneud â phellter cerdded statudol, a fyddai'n caniatáu i awdurdodau addysg lleol (AALl) gynnig cynlluniau trafnidiaeth ysgol unigol;
- Byddai'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i AALl wneud cais ar gyfer 6 chynllun peilot o 2006 ymlaen;
- Byddai pob cynllun yn destun ymgynghoriad lleol helaeth;
- Byddai'r Mesur yn galluogi AALl i godi tâl rhesymol gydag eithriadau posibl ar gyfer teuluoedd mawr, neu deuluoedd sydd ar incwm isel;
- Byddai'r mynegai Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd ar gyfer disgyblion o deuluoedd sydd ar incwm isel yn Lloegr, ond byddai meini prawf ehangach yn cael eu hystyried yng Nghymru; a
- Mesur allweddol o lwyddiant y cynllun fyddai lleihad yn nifer y bobl yn teithio mewn car.

Gwnaeth Aelodau'r awgrymiadau a'r sylwadau canlynol:

- **Amcanion y Cynllun:** Ar y cyfan roedd yr Aelodau yn hapus gydag amcanion y cynlluniau peilot ar gludiant i'r ysgol, yn amodol ar y sylwadau isod:
- **Bod y tâl a godir yn dderbyniol**: byddai'r cynlluniau peilot yn gyfle i greu parthau, fel y byddai modd codi gwahanol bris ar ddisgyblion yn dibynnu ar hyd eu taith. Gallai codi tâl fod yn rhwystr i deuluoedd mawr, a theuluoedd ar incwm isel, a gallai cynnig disgownt annog rhieni i beidio â pharhau i fynd â'u plant i'r ysgol yn y car.
- **Costau**: Roedd pryder na fyddai'r cynlluniau teithio peilot yn niwtral o ran cost ac y byddent yn rhwystro yn hytrach nag yn annog arloesi. Dylid cynnig cymhelliant i'r awdurdodau sefydlu cynlluniau peilot;
- **Diogelwch:** Dylai materion yn ymwneud â diogelwch fod yn un o brif faterion y Mesur, megis math a chyflwr y bysus a ddefnyddir ar gyfer cludiant i'r ysgol yn ogystal â gorfodaeth i wisgo gwregys ddiogelwch. Roedd y consesiwn '3 am bris 2' hefyd yn peri pryder o ran diogelwch.
- **Hawliau rhieni:** Dylid gwarchod hawl rhieni i ddewis i ba ysgol maent yn anfon eu plant yn sgil y newidiadau i gludiant am ddim i'r ysgol;
- **Myfyrwyr Chweched Dosbarth/Colegau AB:**Byddai modd i fyfyrwyr y tu allan i oed ysgol gorfodol gael eu hystyried mewn cynlluniau peilot arfaethedig;
- **Diogelwch ar gludiant ysgol:** Roedd systemau Teledu Cylch Cyfyng yn fwy addas ar gyfer plant hyn, ond roedd hebryngwyr yn tueddi i weithio'n well gyda phlant iau;

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r cyfle i drafod y Mesur drafft, ac yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried eu sylwadau wrth ddrafftio'r Mesur terfynol. Byddai'r Pwyllgor yn sicrhau bod amser yn ei flaenraglen waith ar gyfer craffu ar y Mesur terfynol yn y dyfodol.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog yn amgáu copi o'r adroddiad hwn, ac i ysgrifennu hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, Cadeirydd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Addysg a Sgiliau, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Christine Gwyther AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**